



## **POLISI CHWYTHU'R CHWIBAN**

<b><u>Rheolaeth Dogfen</u></b>	
Fersiwn:	2.0
Awdur (Enw, Teitl Swydd): Chydymffurfiaeth	Joanne Regan, Pennaeth Sicrwydd a
Dyddiad cymeradwyo:	Gorffennaf 2024
Cymeradwywyd gan:	Sian Curley, Prif Weithredwr
Fersiwn a ddisodlwyd:	1.1
Dyddiad yr Adolygiad Nesaf:	Gorffennaf 2028
Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb:	Do

Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg.

## Rheolaeth Fersiwn

<b>Fersiwn</b>	<b>Dyddiad</b>	<b>Diwygiwyd gan</b>	<b>Rheswm dros gyhoeddi / diwygio</b>
1.0	05/10/21	Joanne Regan, Pennaeth Sicrwydd a Chydymffurfiaeth	Creu polisi chwythu'r chwiban a pholisi gwrth-dwyll a llygredigaeth unigol.
1.1	06/12/21	Joanne Regan, Pennaeth Sicrwydd a Chydymffurfiaeth	Diweddarwyd i gynnwys rhif Safecall ac i sicrhau cysondeb o ran terminoleg. Diweddarwyd logo Swyddfa'r Comisiynydd.
2.0	Mehefin 2024	Joanne Regan, Pennaeth Sicrwydd a Chydymffurfiaeth	Mae'r prif adolygiad polisi wedi cynnwys esboniad o'r weithdrefn fewnol.

## **SWYDDFA COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDD**

### **POLISI CHWYTHU'R CHWIBAN**

#### **1. Cyflwyniad**

1.1 Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd wedi ymrwymo i'r safonau uchaf posib o ran didwyllledd, gonestrwydd ac atebolrwydd. Yn unol â'r ymrwymiad hwnnw, rydym yn disgwyl i unrhyw un sydd â phryderon difrifol am unrhyw agwedd ar waith Swyddfa'r Comisiynydd neu Heddlu Gwent leisio'r pryderon hynny.

#### **2. Nod**

2.1 Nod y polisi hwn yw:

- Annog staff i gwestiynu a gweithredu yn sgil pryderon rhesymol a themlo'n hyderus yn lleisio'r pryderon hynny.
- Sicrhau bod unrhyw bryderon a godir yn cael eu hymchwilio mewn modd proffesiynol a chyfrinachol.
- Darparu sicrwydd y bydd staff yn cael eu hamddiffyn rhag dial neu erledigaeth am godi pryderon yn ddiwyll ac y bydd eu cyfrinachedd yn cael ei barchu.
- Annog diwylliant o fod yn agored.

2.2 Bwriad y polisi yw ymdrin â phryderon mawr am gamymddwyn ac mae'n berthnasol i bob aelod o staff Swyddfa'r Comisiynydd, gan gynnwys gwirfoddolwyr.

2.3 Nid yw hwn yn bolisi i'w ddefnyddio i gwestiynu penderfyniadau ariannol na strategaethau busnes, ac ni ddylid ei ddefnyddio i godi materion a fyddai fel arfer yn cael eu hystyried o dan weithdrefn gwyno adnoddau dynol neu sydd eisoes yn destun gweithdrefn ddisgyblu.

2.4 Mae cyfrifoldeb ar bawb i roi gwybod am unrhyw bryderon cyn gynted ag y byddan nhw'n dod yn ymwybodol ohonynt. Os oes ansicrwydd a yw rhywbeth o fewn cwmpas y polisi hwn, mae'n well rhoi gwybod am unrhyw bryder yn hytrach na'i gadw i chi'ch hun.

2.5 Mae'r polisi hwn yn cydnabod hefyd bod staff Swyddfa'r Comisiynydd yn gweithio'n agos â Heddlu Gwent ac y gallent godi pryderon am gamymddwyn tybiedig yn Heddlu Gwent. Os gwneir datgeliad sy'n ymwneud â Heddlu Gwent, bydd angen i'r Prif Weithredwr ei drafod â naill ai Dirprwy Brif Gwnstabl neu Bennaeth Safonau Proffesiynol Heddlu Gwent er mwyn bwrw ymlaen â'r pryderon a godwyd.

### 3. Termau a Diffiniadau

Term	Diffiniad
Chwythwr Chwiban	Gweithiwr sy'n adrodd am fathau penodol o gamwedd yw chwythwr chwiban. Fel rheol, bydd hyn yn rhywbeth a welir yn y gwaith – ond nid bob amser.

### 4. Polisi

#### **Pa fath o ddatgeliadau sy'n cyfrif fel achos o chwythu'r chwiban?**

- 4.1 Nodwyd categorïau penodol yn Neddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998, sy'n cael eu galw'n 'ddatgeliadau cymwys', sy'n destun amddiffyniad arbennig o dan y gyfraith.
- 4.2 Er mwyn i ddatgeliad fod yn ddatgeliad cymwys, mae'n rhaid i'r gweithiwr sy'n gwneud y datgeliad gredu dau beth yn rhesymol:
- a) Ei fod yn gweithredu er lles y cyhoedd. Mae hyn yn golygu nad yw cwynion personol fel arfer wedi'u cynnwys o dan gyfraith chwythu'r chwiban.
  - b) Bod y datgeliad yn tueddu i ddangos bod camwedd o'r gorffennol, y presennol neu gamwedd tebygol yn y dyfodol yn dod o fewn un neu fwy o'r categorïau canlynol:
    - i. troseddau (gall hyn gynnwys, er enghraifft, mathau o amhriodoldeb ariannol fel twyll)
    - ii. methiant i gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol
    - iii. camweinyddu cyfiawnder
    - iv. peryglu iechyd a diogelwch rhywun
    - v. difrod i'r amgylchedd
    - vi. cuddio camwedd yn un o'r categorïau uchod.

Nid yw datgeliad gwybodaeth yn gymwys os yw'r unigolyn sy'n gwneud y datgeliad yn cyflawni trosedd trwy wneud y datgeliad hwnnw.

#### **Rhoi gwybod am bryderon yn fewnol**

- 4.3 Lle bynnag y bo modd, argymhellir bod pryderon yn cael eu hadrodd wrth reolwr llinell unigolyn yn y lle cyntaf neu wrth y Rheolwr Cynllun yn achos gwirfoddolwyr. Fodd bynnag, rydym yn deall y gall pryderon yr unigolyn fod ynghylch y rheolwr llinell. Yn yr achosion hyn, dylid codi'r mater yn uniongyrchol gyda'r Prif Weithredwr fel y Swyddog Monitro neu gyda'r Pennaeth Sicrwydd a Chydymffurfiaeth fel y Dirprwy Swyddog Monitro.
- 4.4 Anogir unigolion i roi eu henwau ar unrhyw bryderon a godir gan fod hyn yn ei gwneud yn haws i ymchwilio ac i weithredu'n gyflym ac yn effeithiol yn sgil yr

wybodaeth a ddarparwyd, ac i roi adborth ar y camau gweithredu a gymerwyd.

- 4.5 Pan fydd pryder yn cael ei godi, bydd Swyddfa'r Comisiynydd yn trin yr wybodaeth yn gyfrinachol ac yn sicrhau mai dim ond gyda'r rhai sydd angen cael gwybod y bydd yr wybodaeth yn cael ei rhannu (gallai hyn gynnwys Heddlu Gwent a chyrrff allanol eraill). Os yw'r unigolyn sy'n rhoi gwybod am yr achos yn pryderu y bydd pwy ydyw yn dod yn hysbys, dylid codi hyn gyda'r unigolyn y rhoddwyd gwybod iddo am y pryder ar y cyfle cyntaf, gan esbonio pam mae'r aelod o staff yn bryderus y bydd pwy ydyw yn dod yn hysbys. Bydd hyn yn galluogi cymryd y camau priodol i fynd i'r afael â'r pryder wrth gefnogi safbwynt personol yr unigolyn.
- 4.6 Mae'n bosib y bydd adegau, oherwydd natur y pryder a godwyd, ei bod yn amlwg pwy yw ffynhonnell yr wybodaeth, er enghraifft; lle mai dim ond nifer fach o bobl sy'n ymwybodol o'r mater. Os yw hyn yn wir, bydd Swyddfa'r Comisiynydd yn gwneud pob ymdrech i gynnal cyfrinachedd a darparu'r gefnogaeth angenrheidiol. Ar ôl rhoi gwybod, mae'n bwysig bod yr unigolyn sy'n lleisio'r pryder yn cadw at unrhyw gyngor a ddarperir er mwyn sicrhau nad yw pwy ydyw yn dod yn hysbys.
- 4.7 Mae sianeli ar gael er mwyn lleisio pryderon yn ddiennw; fodd bynnag, gall hyn ei gwneud hi'n anoddach ymchwilio i'r materion yr adroddwyd amdanynt neu i roi adborth i'r aelod o staff sy'n lleisio'r pryder.
- 4.8 Mae Swyddfa'r Comisiynydd, ar y cyd â Heddlu Gwent, yn contractio'r cyfleuster adrodd yn ddiennw i 'Safecall', sef cwmni allanol cwbl annibynnol. Y rhif ar gyfer cysylltu â Safecall yw 0800 915 1571 neu gallwch adrodd ar-lein - [Report An Incident & Update \(safecall.co.uk\)](http://safecall.co.uk).
- 4.9 Dylid lleisio unrhyw bryderon neu ddatgeliadau gydag un o'r canlynol:
- Rheolwr Llinell/Rheolwr Cynllun Gwirfoddolwyr (bydd angen rhoi gwybod am y pryderon hyn i'r Prif Weithredwr a/neu'r Prif Swyddog Cyllid ar unwaith)
  - Prif Weithredwr a Swyddog Monitro
  - Prif Swyddog Cyllid
  - Pennaeth Sicrwydd a Chydymffurfio a Dirprwy Swyddog Monitro
  - Safecall
  - Adran Safonau Proffesiynol Heddlu Gwent.

### **Rhoi gwybod am bryderon yn allanol**

- 4.10 Mae'r polisi hwn yn darparu dull mewnol ar gyfer rhoi gwybod am, ymchwilio i, a gwneud iawn am unrhyw gamwedd yn y gweithle. Yn y rhan fwyaf o achosion, ni fydd angen i aelod o staff sy'n dymuno lleisio pryder ddefnyddio

llwybr allanol. Dylai rhoi gwybod yn allanol fod yn ddewis olaf; mae dulliau cadarn ar waith gan Swyddfa'r Comisiynydd i ymdrin â phryderon, ac mae disgwyl i staff ddefnyddio'r sianeli presennol hyn.

- 4.11 Fodd bynnag, mae Swyddfa'r Comisiynydd yn cydnabod y gall fod amgylchiadau lle gallai unigolion deimlo eu bod am roi gwybod am achosion wrth gyrff allanol.
- 4.11 Bydd datgeliad cymwys a gaiff ei wneud gan aelod o staff i gorff allanol yn cael ei amddiffyn os yw'n bodloni'r meini prawf canlynol:
- a) Mae'r aelod yn credu'n rhesymol bod yr wybodaeth a ddatgelwyd, ac unrhyw honiad sydd wedi'i gynnwys ynddi, yn wir i raddau helaeth;
  - b) Nid yw'n gwneud y datgeliad er budd personol;
  - c) Mae un o'r canlynol yn berthnasol:
    - i) Ar adeg gwneud y datgeliad, mae'r unigolyn yn credu'n rhesymol y bydd yn destun anfantais gan Swyddfa'r Comisiynydd os bydd yn gwneud datgeliad yn un o'r ffyrdd eraill a ddisgrifir uchod;
    - ii) Mae'r unigolyn wedi gwneud datgeliad blaenorol o'r un wybodaeth i raddau helaeth i un o'r unigolion eraill a ddisgrifir uchod.
  - d) Yn holl amgylchiadau'r achos, mae'n rhesymol i'r unigolyn wneud y datgeliad.
- 4.12 Os yw'r datgeliad yn ymwneud â mater o natur eithriadol o ddifrifol, nid oes rhaid bodloni'r meini prawf o dan (c).
- 4.13 Dyma'r sefydliadau allanol y gellir cysylltu â nhw i leisio pryder:
- Cymdeithas staff
  - Archwilio mewnol
  - Archwilio Cymru
  - Unrhyw gorff rheoleiddio neu broffesiynol arall perthnasol, fel Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi neu Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu.

### **Nodi a gweithredu yn sgil datgeliadau chwythu'r chwiban**

- 4.14 Os bydd unigolyn yn rhoi gwybod am bryder, bydd y mater yn cael ei gymryd o ddifrif a rhoddir sicrwydd a chymorth i'r unigolyn sydd wedi lleisio'r pryder y bydd y datgeliad yn cael ei drin yn gyfrinachol lle y bo hynny'n bosib.
- 4.15 Os yw'r datgeliad yn cael ei wneud i unrhyw un heblaw'r Prif Weithredwr neu'r Prif Swyddog Cyllid, rhaid codi'r mater gyda nhw ar unwaith. Bydd penderfyniad

yn cael ei wneud ynghylch a yw'r mater a godwyd yn gyfystyr ag achos o chwythu'r chwiban neu a yw'n gyfystyr â chŵyn bersonol a dylid ymdrin ag ef o dan weithdrefn wahanol, er enghraifft y weithdrefn Tegwch yn y Gwaith.

- 4.16 Gellir cael cyngor ar ba broses y dylid ei defnyddio ar gyfer datgeliadau penodol gan y Gwasanaethau Cyfreithiol ar y Cyd.
- 4.17 Bydd y Prif Weithredwr a Swyddog Monitro yn cadw cofnod o bryderon a leisiwyd a'r canlyniadau (ar ffurf sy'n sicrhau cyfrinachedd) a bydd yn adrodd wrth Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd fel y bo angen.

### **Honiadau ffug gan chwythwyr chwiban**

- 4.17 Mae gwneud honiad ffug bwriadol yn erbyn aelod arall o staff (gan gynnwys swyddogion a staff sy'n gweithio i Heddlu Gwent) yn anonest a gallai fod yn gyfystyr â gwyrddroi cwrs cyfiawnder pan fydd yn ymwneud â mater troseddol.
- 4.18 Rhaid i ddatgeliad gwarchodedig, yng nghred resymol y chwythwr chwiban, dueddu i ddangos bod camymddwyn neu gamymarfer wedi digwydd. Ni fydd honiadau ffug bwriadol byth yn ddatgeliadau gwarchodedig a gallant gael eu hasesu i fod yn rhai sy'n gyfystyr â chamymddwyn difrifol.

### **Imiwnedd rhag achos**

- 4.19 Ni ddylai gweithredoedd unigolyn sy'n gwneud datgeliad gwarchodedig arwain at gamau disgyblu yn ei erbyn.
- 4.20 Nid yw hyn yn sicrhau imiwnedd llwyr rhag camau disgyblu mewn perthynas ag unrhyw agwedd arall ar ymddygiad y chwythwr chwiban, er enghraifft os oedd yn rhan o'r camymddwyn y mae'n rhoi gwybod amdano, neu unrhyw achos arall o gamymddwyn.
- 4.21 Gall imiwnedd o'r fath fod yn briodol mewn rhai amgylchiadau ond byddai angen ystyried faint o amser sydd wedi mynd heibio, ac unrhyw niwed a achoswyd yn sgil peidio ag adrodd amdano ar y pryd.

### **Dial yn erbyn chwythwyr chwiban**

- 4.22 Dylid ystyried bod unigolyn sy'n gweithredu'n fwriadol i ddial ar rywun sydd wedi gwneud datgeliad gwarchodedig, neu aelodau o'i deulu neu gymdeithion agos eraill, wedi torri'r Cod Ymddygiad staff.
- 4.23 Byddai achos o'r fath yn fater ymddygiad a fydd yn cael ei gofnodi. Rhaid bod y datgeliad gwarchodedig wedi cael ei wneud cyn i'r dial ddigwydd, ac mae'n rhaid bod y drwgweithredwr yn gwybod am y datgeliad gwarchodedig ar y pryd ac wedi gweithredu'n fwriadol i achosi anfantais i'r aelod o staff a wnaeth y datgeliad.

- 4.24 Gallai dial yn erbyn chwythwr chwiban fod ar ffurf gwneud honiad ffug yn fwriadol, neu ddilyn camau disgyblu sy'n amlwg yn llawer mwy difrifol na chamau a gymerir yn erbyn aelodau eraill o staff sy'n cyflawni'r un weithred o gamymddwyn. Gallai dial hefyd fod ar ffurf bygwth, bwlio, ynysu, materion personél fel symud a dyrchafu staff ac unrhyw driniaeth niweidiol arall.
- 4.25 Ni ddylai hyn wahardd ymchwilio i honiadau a wnaed yn erbyn chwythwyr chwiban. Fodd bynnag, pan fydd unigolyn sydd wedi gwneud datgeliad gwarchoddedig wedyn yn destun honiad a heriwyd, dylai'r posibilrwydd o ddialedd fod yn rhan o'r ystyriaeth cyn symud ymlaen at unrhyw achos disgyblu, unwaith y bydd yr holl dystiolaeth ar gael.
- 4.26 Gall gwrth-honiadau ei gwneud hi'n anodd gwahaniaethu rhwng unigolyn sy'n rhoi gwybod am gamwedd neu'n rhoi sylw i gamwedd, a honiad a gaiff ei wneud i ddial ar rywun. Mae'n bosib y bydd angen ymchwilio ymhellach wrth ystyried achosion o'r fath i benderfynu a oes tystiolaeth eglur bod cyflawnwr a pharti sydd wedi'i dramgwyddo. Ni fydd bob amser yn wir mai'r unigolyn cyntaf i adrodd am achos o ddial yw'r dioddefwr.
- 4.27 Efallai y bydd rhai achosion o ddial sy'n gyfystyr â throstedd. Gallai hyn fod oherwydd difrifoldeb y dial neu lle mae chwythwr chwiban yn dyst i fater troseddol, a bod ymgais yn cael ei gwneud i'w ddychryn.
- 4.28 Dylai honiad o ddial yn erbyn chwythwr chwiban gael ei asesu a, lle gellir cyfiawnhau hynny, ei gofnodi, a dylid ymchwilio iddo yn yr un modd ag unrhyw fater ymddygiad arall, yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael.

### **Tystiolaeth chwythwyr chwiban mewn gwrandawiadau cyhoeddus**

- 4.29 Mae'n bosib y bydd gofyn i unigolion sy'n rhoi gwybod am achos o gamymddwyn roi tystiolaeth yn ddiweddarach mewn gwrandawiadau camymddwyn a fydd yn cael eu cynnal yn gyhoeddus os yw'r mater yr adroddwyd amdano yn ymwneud â swyddog o Heddlu Gwent. Rhaid nodi bod gwrandawiadau disgyblu yn erbyn swyddogion heddlu yn cael eu cynnal yn gyhoeddus fel arfer a bod achosion disgyblu yn erbyn staff yr heddlu yn cael eu cynnal yn breifat.
- 4.30 Mae Rheoliadau'r Heddlu yn rhoi disgrisiwn eang i'r unigolyn sy'n cadeirio neu'n cynnal y gwrandawriad camymddwyn i eithrio unrhyw un (gan gynnwys y cyfryngau) o'r achos cyfan neu ran ohono. O dan y rheoliadau, mae dyletswydd ar yr unigolyn sy'n cadeirio neu'n cynnal y gwrandawriad i ofyn i'r cyhoedd (gan gynnwys y cyfryngau) adael pan fydd tystiolaeth yn cael ei rhoi na ddylid ei datgelu i fynychwyr o'r fath yn ôl y prawf niwed yn Rheoliadau'r Heddlu.
- 4.31 Dylai'r unigolyn sy'n cadeirio neu'n cynnal y gwrandawriad ystyried a yw'r prawf niwed yn berthnasol ac, os nad yw, p'un a yw'n angenrheidiol



defnyddio'r pŵer dewisol er mwyn atal gwybodaeth am bwy yw tyst heddlu rhag cael ei datgelu. Dylai hon fod yn ystyriaeth ar gyfer pob tyst heddlu, ond gall fod yn arbennig o berthnasol mewn rhai amgylchiadau, er enghraifft os yw tyst heddlu yn swyddog cudd neu'n swyddog arfau tanio lle na ddylid cyhoeddi pwy ydyw, neu os ydyw yn un o ddioddefwyr y camymddwyn honedig a'i fod o natur rywiol.

- 4.32 Felly, dylid rhoi sicrwydd i chwythwyr chwiban y byddai eu statws chwythu chwiban a'r amddiffyniad a fyddai'n cael ei roi iddyn nhw pe bai'n ofynnol iddynt roi tystiolaeth mewn achos yn cael eu hystyried yn ofalus.

## **5. Hyfforddiant**

- 5.1 Bydd hyfforddiant am chwythu'r chwiban yn cael ei roi i'r Prif Weithredwr, sef y Swyddog Monitro, yn ogystal â'r Dirprwy Swyddog Monitro a'r Prif Swyddog Cyllid.

## **6. Monitro**

- 6.1 Bydd y polisi hwn yn cael ei fonitro gan y Pennaeth Sicrwydd a Chydymffurfiaeth i wneud yn siŵr ei fod yn adlewyrchu prosesau Swyddfa'r Comisiynydd.

## **7. Ymgynghori**

- 7.1 Ymgynghorwyd â'r Prif Weithredwr, Tîm Uwch Reolwyr Swyddfa'r Comisiynydd a'r Rheolwr Cynllun Gwirfoddolwyr wrth adolygu'r polisi yma.

## **8. Dogfennau Cysylltiedig**

- Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996
- Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Polisi Gwrth-dwyll a Llygredigaeth Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd
- Polisi Chwythu'r Chwiban Heddlu Gwent

## **9. Dosbarthiad**

- 9.1 Bydd y polisi'n cael ei ymgorffori ym mhroses sefydlu Swyddfa'r Comisiynydd a bydd yn cael ei uwchlwytho ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd hefyd.
- 9.2 Bydd yr holl staff yn cael eu hysbysu am unrhyw newidiadau i'r polisi, naill ai trwy neges electronig neu yn ystod diwrnod hyfforddiant Swyddfa'r Comisiynydd.

## **10. Cyfnod Adolygu**

- 10.1 Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu bob pedair blynedd fel isafswm neu pan fydd diwygiadau i reolau Swyddfa'r Comisiynydd, neu newidiadau i ddeddfwriaeth ac arferion gweithio'n cael eu nodi.

## **11. Atodiadau**

### **11.1 Gweithdrefn fewnol**

#### **Atodiad 1**

Ymateb Swyddfa'r Comisiynydd i bryderon staff

O fewn deg diwrnod gwaith o ddyddiad derbyn y pryder, cysylltir â'r unigolyn yn y ffordd mae wedi ei ddewis i:

- gydnabod bod y pryder wedi ei derbyn;
- dangos sut mae'r person sy'n ystyried y mater yn bwriadu ymdrin â'r mater;
- rhoi amcan o faint o amser y bydd yn ei gymryd i ddarparu ymateb terfynol;
- hysbysu a oes unrhyw ymholiadau dechreuol wedi cael eu gwneud;
- dangos a fydd ymchwiliad pellach yn digwydd ac, os na, pam hynny.

Bydd faint o gysylltiad a fydd rhwng y person sy'n ystyried y mater a'r unigolyn yn dibynnu ar natur y pryder a leisiwyd, anawsterau posibl ac eglurder yr wybodaeth a ddarparwyd yn y lle cyntaf.

Pan drefnir unrhyw gyfarfod, mae gan unigolion hawl i ddod â chynrychiolydd Undeb Llafur neu gymdeithas broffesiynol neu gydweithiwr nad yw'n ymwneud â'r maes gwaith mae'r gŵyn yn ymwneud ag ef gyda nhw.

Os bernir bod hynny'n briodol, er lles cyfiawnder naturiol, bydd yr unigolyn sy'n destun y pryder yn cael gwybod am yr ymchwiliad. Fodd bynnag, os teimlir y gallai hyn darfu ar neu atal yr ymchwiliad dechreuol, bydd hyn yn cael ei oedi.

Lle y bo'n briodol, bydd ymchwiliad yn cael ei gynnal gan berson priodol a fydd, os bernir bod angen, yn cynnwys corff annibynnol allanol (e.e. Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi neu Archwilwyr Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd). Byddant yn cyflwyno eu canfyddiadau ac yn gwneud argymhellion yn seiliedig arnynt. Bydd y manylion hyn yn cael eu cynnwys mewn adroddiad ysgrifenedig. Bydd yr adroddiad yn cael ei roi i'r Prif Weithredwr fel y bo'n briodol a fydd yn penderfynu ar y camau nesaf.

### **Beth i'w wneud os nad ydych chi'n fodlon ar y canlyniad**

Er na all Swyddfa'r Comisiynydd warantu'r canlyniad y mae'r unigolyn sy'n lleisio pryder ei eisiau, bydd pryderon yn cael eu trin yn deg, yn gymesur ac mewn ffordd briodol.

Dylai unrhyw unigolyn sy'n anfodlon ar y canlyniad roi gwybod i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd, o fewn 10 diwrnod gwaith o gael ei hysbysu o'r canlyniad.

Bydd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn ystyried a yw'r mater wedi cael ei reoli'n briodol ac a yw'r canlyniad yn rhesymol.

Mae penderfyniad Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn derfynol ac yn cwblhau'r broses.